



Home Office

Y Swyddfa Gartref

Diogelwch arfau tanio

Ymgynghoriad y llywodraeth

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cychwyn ar 24 Tachwedd 2020

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar 16 Chwefror 2021

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

I: Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored i'r cyhoedd ac wedi'i dargedu at unigolion, busnesau a sefydliadau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban sydd â diddordeb yn y materion diogelwch ynghylch arfau tanio sy'n destun yr ymgynghoriad hwn.

Hyd: O 24 Tachwedd 2020 to 16 Chwefror 2021

Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat arall) i: E-bost: firearmsconsultations@homeoffice.gov.uk

Sut i ymateb: Ymatebwch ar-lein yn: <https://www.gov.uk/government/consultations/firearms-safety>

NEU

Os na allwch ddefnyddio'r system ar-lein am resymau eithriadol, gallwch lawrlwytho fersiwn dogfen Word o'r ffurflen a'i hanfon trwy e-bost at:

E-bost: firearmsconsultations@homeoffice.gov.uk

Peidiwch ag anfon ymatebion trwy'r post i'r adran ar hyn o bryd oherwydd efallai na fyddwn yn gallueu cyrchu.

Ffyrdd ychwanegol i ymateb: Cysylltwch â'r Uned Trais Difrifol (fel uchod) os oes angen gwybodaeth arnoch mewn unrhyw fformat arall, megis Braille, ffont mawr neu sain.

Papur ymateb: Cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar gov.uk cyn neu ochr yn ochr â chynigion polisi terfynol.

Cynnwys

Rhagair	2
Crynodeb gweithredol	Error! Bookmark not defined.
Cyflwyniad	6
Y cynigion	8
Holiadur	21
Ynglŷn â chi	26
Manylion cyswllt a sut i ymateb	27
Asesiadau Effaith	30
Egwyddorion yr ymgynghoriad	Error! Bookmark not defined.

Rhagair



Kit Malthouse AS, Y Gweinidog Gwladol dros Droseddu a Phlismaona

Mae'r deddfau arfau tanio yn y wlad hon ymhlith y mwyaf llym yn y byd ac mae'r Llywodraeth yn eu hadolygu'n gyson i sicrhau eu bod yn parhau i ddiogelu'r cyhoedd.

Er bod saethu cyfreithlon wedi'i reoleiddio'n dda ac yn ddiogelar y cyfan, mae risg o hyd y bydd arfau tanio yn syrthio i ddwylo troseddwr neu derfysgwyr, neu yn achos arfau awyr, y byddant yn cael eu camddefnyddio. Mae diogelwch y cyhoedd o'r pwys mwyaf ac mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ei gallu i leihau'r risgiau hyn.

Rydym wedi cryfhau cyfraith arfau tanio yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, rydym wedi cyflwyno troseddau newydd i atal trosi arfau tanio dynwared a gwerthu arfau tanio 'wedi eu dadactifadu'n ddiffygiol', ac rydym wedi gwahardd reifflau sy'n tanio'n gyflym a charnau bwmp. Fel y nodwyd yn ein [Strategaeth Trais Difrifol](#), byddwn yn cryfhau'r rheolaethau ymhellach trwy reoleiddio mwy ar arfau tanio hynafol, rheolaethau tynnach ar werthwyr arfau tanio a defnydd mwy effeithiol o wybodaeth feddygol mewn penderfyniadau trwyddedu.

Yn yr ymgynghoriad hwn, wyf yn ceisio'ch barn ar ystod o faterion ynghylch diogelwch arfau tanio a godwyd yn y Senedd yn ystod hynt Deddf Arfau Ymosodol 2019. Yn benodol, fe fu llawer o ddadlau ynghylch cryfhau'r rheolaethau ar reifflau ynni trwyn uchel, gan gynnwys a ddylid gwahardd y rhain o dan adran 5 Deddf Arfau Tanio 1968. Penderfynodd y Llywodraeth fod angen ystyried y cwestiwn hwn ymhellach yn fanwl. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio'ch barn ar sut y gallem fynd i'r afael â'r bygythiad y mae'r arfau hyn yn ei beri pe byddent yn syrthio i'r dwylo anghywir, gan gynnwys trwy drefniadau diogelwch gwell i leihau'r risg y byddant yn gwneud hynny.

Rwyf hefyd yn ceisio'ch barn ar wella'r rheolyddion ar arfau awyr, gan gynnwys eu storio'n ddiogel. Mae hyn yn dilyn adolygiad y Swyddfa Gartref o'r modd y rheoleiddir arfau awyr, a gychwynwyd ar ôl marwolaeth drasig Benjamin Wragge, 13 oed, a laddwyd ar ddamwain ag arf awyr yn 2016.

Yn olaf, byddwn yn croesawu eich barn ar ddau fater diogelwch cyhoeddus arall a godwyd yn ystod hysbysu Deddf Arfau Ymosodol 2019 trwy'r Senedd: sut y gallem fynd i'r afael â gwendidau a gyflwynir gan yr eithriad cyfredol rhag trwyddedu sy'n berthnasol i ystodau reifflau bach, ac a ddylem gryfhau rheolaethau ar gydrannau bwledi.

Rwy'n mawr obeithio y byddwch chi'n ymateb i'r papur ymgynghori pwysig hwn. Bydd eich barn yn ein helpu i wella ein rheolyddion arfau tanio ac yn helpu i gadw pobl yn ddiogel.

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'Kit Malthouse', with a long horizontal flourish extending to the right.

Kit Malthouse AS

Y Gweinidog Gwladol dros Droseddu a Phlisma

Crynodeb gweithredol

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar ystod o faterion ynghylch diogelwch arfau tanio a godwyd gyda'r Llywodraeth yn ystod hynt Deddf Arfau Ymosodol 2019. Mae'n cynnwys cynigion ar gyfer sut y gallai'r gyfraith gael ei newid i liniaru'r risgiau a godir gan y materion hyn.

Reifflau ynni trwyn uchel

Mewn ymateb i bryderon ynghylch y potensial i weld camddefnydd difrifol a cholli bywydau pe byddai arfau tanio arbennig o rymus, a ddisgrifir yma fel reifflau ynni trwyn uchel, yn syrthio i ddwylo troseddwr neu derfysgwyr, fe wnaeth y Llywodraeth gynnwys mesurau i wahardd perchnogaeth o'r arfau hyn yn Neddf Arfau Ymosodol 2019 wrth iddi gael ei chyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin. Fodd bynnag, daeth yn amlwg yn ystod pasio'r Ddeddf ei bod yn bosibl na fyddai angen gwahardd yr arfau hyn, gan gofio nad oedd tystiolaeth o'u defnyddio mewn troseddau. Awgrymwyd yn lle hynny y gallai gwell diogelwch liniaru'r risg o ddwyn a chamddefnyddio yn ddigonol. Yn dilyn ystyriaeth ofalus, tynnwyd y ddarpariaeth yn y Ddeddf yn ôl ar y sail y byddai'r Llywodraeth yn profi'r dewisiadau amgen trwy'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Felly mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar ba lefel o ddiogelwch gwell a fyddai'n lleihau'r risg y byddai reifflau ynni trwyn uchel yn cael eu dwyn a'u camddefnyddio.

Arfau awyr

Er nad yw'r mwyafrif o arfau awyr wedi'u trwyddedu, maent yn arfau tanio ac maent yn cael eu rheoleiddio gan ddeddfwriaeth arfau tanio er mwyn atal eu camddefnydd. Yn dilyn marwolaeth drasig Benjamin Wragge, 13 oed, a laddwyd ar ddamwain ag arf awyr yn 2016, cynhaliodd y Llywodraeth adolygiad o'r rheolaethau ar arfau awyr. Mae'r ymgynghoriad hwn yn crynhoi'r ymatebion i'r adolygiad hwnnw ac yn ceisio barn ar gynigion y Llywodraeth ar gyfer newid. Mae'r cynigion hyn yn ymwneud â meddu ar arfau awyr gan y rhai dan 18 oed, modd storio a chadw arfau awyr yn ddiogel.

Meysydd reifflau bach

Mae eithriad yn y gyfraith arfau tanio sy'n caniatáu i berson redeg maes reifflau neu oriel saethu lle mai dim ond reifflau caliber bach neu arfau awyr sy'n cael eu defnyddio, heb fod angen trwydded arfau tanio. Yn ychwanegol, nid oes angen trwydded arfau tanio ar aelodau'r cyhoedd i saethu mewn maes neu oriel o'r fath. Defnyddir yr eithriad hwn yn helaeth i gyflwyno pobl i saethu targedau. Fodd bynnag, mae'r sector gorfodi'r gyfraith wedi codi pryderon y gallai'r eithriad ganiatáu i bobl anaddas gael gafael arfau tanio, gyda gan achosi risgiau i ddiogelwch y cyhoedd o ganlyniad.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar wella'r rheolaethau ar feysydd reifflau bach wrth gadw'r buddion y mae meysydd reifflau bach yn eu cyflwyno i chwaraeon saethu. Y cynnig allweddol yw bod rhaid i unrhyw un sy'n dymuno gweithredu maes reifflau bach wneud cais am dystysgrif arfau tanio a chael y gwiriadau angenrheidiol gan yr heddlu i'w cefndir a'u diogelwch.

Bwledi

Mae'r sector gorfodi'r gyfraith wedi codi pryderon ynghylch argaeledd cydrannau bwledi, a sut y gallai troseddwy'r eu defnyddio i gynhyrchu rowndiau llawn o fwledi yn anghyfreithlon. Mae cydrannau allweddol bwledi - y gyrrwr a'r preimiwr - eisoes yn cael eu rheoli, ac mae troseddau'n bodoli sy'n ymwneud â meddiant anghyfreithlon o fwledi cyflawn. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ynghylch a yw'r rheolaethau hyn yn parhau i fod yn ddigonol neu a ddylid eu cryfhau.

Cyflwyniad

Mae deddfwriaeth arfau tanio ym Mhrydain Fawr wedi'i nodi'n bennaf yn Neddf Arfau Tanio 1968 ac mae'n seiliedig yn gadarn ar ddiogelwch y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod arfau tanio'n cael eu defnyddio at ystod o ddibenion cyfreithlon, megis saethu targedau, saethu chwareli a rheoli plâu, ac mae'r mwyafrif helaeth yn cael eu defnyddio'n ddiogel ac yn gyfrifol. Er bod rhaid i'r rheolaethau amddiffyn y cyhoedd rhag camddefnydd, rhaid iddynt hefyd fod yn gymesur a chael eu gweinyddu'n deg.

Mae [Canllaw'r Swyddfa Gartref ar Gyfraith Trwyddedu Arfau Tanio 2016](#) yn esbonio sut mae'r system drwyddedu yn gweithio a sut mae gwahanol fathau o arfau tanio'n cael eu rheoli. Mae'r canllaw yn cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd er mwyn adlewyrchu newidiadau diweddar i'r gyfraith ond mae'r system reolaethau gyffredinol yn aros yr un fath.

Mae cyfraith arfau tanio yn cael ei hadolygu i sicrhau ei bod yn mynd i'r afael â risgiau sy'n dod i'r amlwg i ddiogelwch y cyhoedd. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y materion dilynol ynghylch diogelwch arfau tanio a godwyd gyda'r Llywodraeth yn ystod hysbysu Deddf Arfau Ymosodol 2019 trwy'r Senedd:

- Reiffiau ynni trwyn uchel
- Arfau awyr
- Meysydd reiffiau bach, a
- Chydrannau bwledi.

Cyhoeddwyd asesiadau effaith ar gyfer pob un o'r materion hyn ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn. Fe'ch gwahoddir i gyflwyno unrhyw sylwadau a allai fod gennych ar yr asesiadau effaith fel rhan o'ch ymateb.

Mae Deddf Arfau Tanio 1968 yn ymestyn i Gymru, Lloegr a'r Alban, ac eithrio rheoleiddio arfau awyr yn yr Alban, sydd wedi'i ddatganoli. Yn gyffredinol, mae rheoli arfau tanio yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth ar wahân yng Ngogledd Iwerddon. Felly mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu'n bennaf at bobl, busnesau a sefydliadau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r Llywodraeth yn ymgysylltu â'r Adran Gyfiawnder yng Ngogledd Iwerddon ar y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn i sicrhau, lle mae hynny'n briodol, bod rheolaethau arfau tanio yn cael eu cryfhau ledled y DU.

Mae copïau o'r papur ymgynghori hwn yn cael eu hanfon at gyrff proffesiynol a grwpiau cynrychiadol gan gynnwys:

Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu
Battersea Cats and Dogs Home
Blue Cross
Llu'r Ffiniau
British Association for Shooting and Conservation
Cymdeithas Feddygol Prydain
British Pest Control Association
British Shooting Sports Council
Cats Protection

Clay Pigeon Shooting Association
Y Gynghrair Cefn Gwlad
Gwasanaeth Erlyn y Goron
Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Gun Control Network
Gun Trade Association
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi
Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau – Yr Alban
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
Irish SPCA
National Ballistics Intelligence Service
Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
National Gamekeepers Organisation
Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu
National Rifle Association of GB and NI
National Small-bore Rifle Association
Northern Ireland Department of Justice
Police Scotland
Police Service of Northern Ireland
Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
RSPCA
Scottish Gamekeepers Association
Llywodraeth yr Alban
Scottish SPCA
United Kingdom Practical Shooting Association
Llywodraeth Cymru

Fodd bynnag, ni fwriedir y rhestr hon i fod yn gynhwysfawr nac yn gyfyngedig a chroesewir ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb yn y pynciau a gwmpesir yn y papur hwn, neu sydd â barn arnynt.

Y cynigion

Reifflau ynni trwyn uchel

Mae'r adran hon yn gwahodd barn ynghylch a fyddai gwell diogelwch cartref a rheolaethau llymach ar storio a meddu ar y bwledi a chydannau hanfodol reifflau ynni trwyn uchel yn ddigonol i liniaru'r risg bosibl y byddai'r reifflau hyn yn syrthio i'r dwylo anghywir.

Diffiniad o reiffl ynni trwyn uchel

At ddiben yr ymgynghoriad hwn, rydym yn diffinio reiffl ynni trwyn uchel fel unrhyw reiffl sy'n gallu gollwng bwled ag ynni cinetig o fwy na 13,600 o joules ar drwyn yr arf.

Y mater

Mynegwyd pryderon ynghylch y potensial ar gyfer camddefnydd difrifol a cholli bywydau pe byddai reiffl ynni trwyn uchel, sydd ar hyn o bryd yn destun trefniadau trwyddedu cyffredinol o dan adran 1 o Ddeddf Arfau Saethu 1968, yn syrthio i ddwylo troseddwr neu derfysgwyr. Yng ngoleuni'r asesiad bygythiad a dderbyniwyd, roedd y Llywodraeth o'r farn bod sail dda i orfodi rheolaethau llymach ar eu meddiant ac, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus cynharach, gwnaed darpariaeth yn Neddf Arfau Ymosodol 2019, wrth iddi gael ei chyflwyno i'r Senedd, i wneud yr holl reifflau ynni trwyn uchel sy'n diwallu'r diffiniad uchod yn destun gwaharddiad cyffredinol.

Trafodwyd y mater hwn yn helaeth yn ystod camau cynnar taith Seneddol y Ddeddf pan godwyd pryderon ynghylch cymesuredd gwahardd y reifflau hyn, gan gofio mai dim ond un yr adroddwyd ei fod wedi'i ddwyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac nad oedd tystiolaeth o'u defnyddio mewn troseddau yn y wlad hon. O ystyried nodweddion penodol y reifflau hyn - eu pwysau a'u maint, er enghraifft - awgrymwyd y byddai gwell diogelwch ynghylch eu storio a'u cludo yn lliniaru'r risg o ddwyn a chamddefnyddio a fynegwyd gan yr heddlu ac eraill yn ddigonol.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod mwyafrif llethol y bobl sydd ag arfau tanio yn eu defnyddio'n gyfrifol ac, yng nghyd-destun y Ddeddf Arfau Ymosodol, rhoddodd y Llywodraeth ymrwymiad i ystyried ymhellach y pwyntiau a godwyd ynghylch dewisiadau amgen posibl yn lle gwaharddiad. Felly tynnwyd y mesurau yn y Ddeddf yn ôl yn ystod ei hynt trwy'r Senedd ar y sail y byddai'r Llywodraeth yn profi'r dewisiadau amgen ymhellach trwy'r ymgynghoriad hwn. Heb geisio rhagweld canlyniad yr ymgynghoriad hwn, mae adran 61 Ddeddf Arfau Ymosodol 2019 wedi mewnosod adran 27A newydd yn Neddf Arfau Tanio 1968 er mwyn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheolau sy'n rhagnodi'r lleiafswm amodau diogelwch ar gyfer storio a chludo reifflau ynni trwyn uchel yn ddiogel, a fyddai ynghlwm wrth dystysgrif arf tanio y perchennog. Cyn gwneud y rheolau, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori ag unigolion sy'n debygol o gael eu heffeithio ganddynt, a byddai hyn yn digwydd, os yw'n briodol, pe byddai canlyniad yr ymgynghoriad hwn yn arwain at fesurau diogelwch gwell mewn perthynas â'r arfau tanio penodol hyn.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn darparu cyfle i bawb ddweud eu dweud ar wahardd reifflau ynni trwyn uchel a'r dewis arall o safonau diogelwch gorfodol ar gyfer eu storio pan nad ydynt yn cael eu defnyddio mewn clwb saethu neu gan ddeliwr arfau tanio cofrestredig.

Bydd yn galluogi'r Llywodraeth i gymryd barn fwy gwybodus yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Yn y cyfamser, bydd y safonau cyfredol a ddisgwylir ym maes trwyddedu arfau tanio yn aros yn eu lle ochr yn ochr ag unrhyw amodau a osodir gan yr heddlu lleol.

Trefniadau diogelwch cyfredol ar gyfer yr holl arfau tanio

Mae'r [Llawlyfr Diogelwch Arfau Tanio](#) yn darparu cyngor ar storio arfau tanio a gynnu haels yn ddiogel a ddelir gan unigolion ar dystysgrifau a gyhoeddir gan heddluoedd. Mae'n nodi tair lefel o ddiogelwch, gyda diogelwch lefel 1 - y safonau diogelwch arferol sy'n berthnasol i'r mwyafrif o arfau tanio a ddelir ar dystysgrif arfau tanio - gan gynnwys fel arfer:

- gofyniad bod yr arf tanio'n cael ei gadw mewn cabinet diogel ar gyfer arfau tanio sy'n diwallu'r safonau diogelwch perthnasol (h.y. BS7558);
- bod y cabinet wedi'i osod ar strwythur yr eiddo yn y rhan o'r adeilad lle mae pobl yn byw (h.y. nid mewn garej ar wahân neu adeilad allanol); a
- bod yr arfau tanio, bwledi ac unrhyw gydrannau y gellir eu symud yn hawdd yn cael eu storio ar wahân i'r arf tanio ei hun, lle bynnag mae hynny'n bosibl.

Efallai y bydd angen gofynion diogelwch uwch ar yr heddlu - lefelau 2 a 3 - lle mae mwy o risgiau, megis y rhai sy'n codi o natur yr arf tanio dan sylw, ei berygl posibl os caiff ei gamddefnyddio neu ei apêl bosibl i droseddwr neu derfysgwyr. Ar gyfer lefel 2, gall hyn gynnwys cloeon gwell ar ddrysau a ffenestri ar yr eiddo a gosod larwm tresmaswr clywadwy. Gall diogelwch Lefel 3 gynnwys caledu targed gwell ar gyfer ffenestri a drysau'r eiddo, cypyrddau storio cryfach, cloeon unigol ar arfau, larwm tresmaswr clywadwy wedi'i fonitro ac mewn rhai achosion gofyniad i storio'r arf tanio mewn ystafell arfau tanio bwrpasol a diogel.

Mae'r heddlu'n ystyried y Llawlyfr Diogelwch wrth wneud penderfyniadau ynghylch gofynion diogelwch mewn achosion unigol, ond canllaw yn unig yw'r Llawlyfr ac nid oes ganddo bwysau statudol.

Amodau diogelwch ychwanegol

Fel y nodwyd yn gynharach, mae adran 27A Deddf Arfau Tanio 1968 yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheolau sy'n rhagnodi'r amodau i'w hatodi i unrhyw dystysgrif arf tanio sy'n ymwneud â reifflau ynni trwyn uchel mewn perthynas â sut y dylid eu storio pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, gan gynnwys pan ydynt yn cael eu cludo. Ar ôl i'r rheolau gael eu gwneud, rhaid i brif swyddogion yr heddlu ychwanegu'r gofynion hyn at yr holl dystysgrifau arfau tanio sy'n cwmpasu'r reifflau hyn sy'n cael eu cyhoeddi neu eu hadnewyddu ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym.

Rydym yn ceisio barn ynghylch a yw'r safonau diogelwch uchaf cyfredol (lefel 3 yn y Llawlyfr Diogelwch Arfau Tanio) yn ddigonol neu a fydd diogelwch hyd yn oed yn fwy, neu gyfyngiadau ar storio pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, yn mynd ymhellach o ran lleihau'r risg bosibl o ddwyn, colli neu gamddefnyddio reifflau ynni uchel. Yn benodol, byddem yn croesawu barn ar y dilynol:

C1. I ba raddau ydych yn ystyried y byddai'r gofynion diogelwch lefel 3 presennol, os ydynt yn cael eu nodi mewn rheolau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn

ddigonol i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â reifflau ynni trwyn uchel, fel y disgrifir uchod?

C2. Os nad ydych o'r farn y byddai diogelwch lefel 3 yn mynd i'r afael â'r risgiau'n ddigonol, i ba raddau ydych chi'n ystyried y gallai'r amodau diogelwch ychwanegol dilynol fod yn berthnasol i storio a defnyddio'r reifflau hyn yn ddiogel?

- a) *Gosod caeadau a rhwyllau ar bob drws a ffenestr?*
- b) *Gosod CCTV?*
- c) *Larymau panig sydd ar gael lle mae'r reiffl yn cael ei storio?*
- d) *Larymau panig sydd ar gael pan yw'r reiffl yn cael ei ddefnyddio ar faes?*
- e) *Dylid cadw'r follt neu gydrannau hanfodol eraill ar wahân?*
- f) *Os yw'n hyfyw, ac â newid yn amodau'r gyfraith neu dystysgrif, aelodau eraill o glwb saethu'r deiliad i ofalu am gydrannau hanfodol ar ran ei gilydd?*
- g) *Rhaid cadw bwledi ar wahân i'r gwn mewn cabinet ar wahân a dim ond nifer fach o rowndiau bwledi a ganiateir?*

C3. I ba raddau y byddai'n well/hyfyw ei gwneud yn ofynnol i'r reifflau hyn gael eu storio mewn clwb gynnau'n unig?

C4. I ba raddau y byddai'n well/hyfyw ei gwneud yn ofynnol i'r reifflau hyn gael eu storio gan ddeliwr arfau tanio cofrestredig yn unig?

C5. Unrhyw sylwadau eraill ar y cynigion hyn ar gyfer mesurau diogelwch ychwanegol ar gyfer reifflau ynni trwyn uchel, gan gynnwys unrhyw sylwadau ar y costau a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn yr asesiad effaith ac unrhyw gostau nad ydynt wedi'u cynnwys? (uchafswm o 250 gair)

Arfau awyr

Diffiniad o arfau awyr

Mae gynnuau awyr, reifflau awyr a phistolau awyr yn arfau sy'n gyrru taflegrau â nwy cywasgedig (awyr fel arfer) yn hytrach nag â ffrwydrad. Maent wedi'u heithrio rhag gofynion trwyddedu arfau tanio oni bai eu bod yn cael eu dosbarthu fel rhai "arbennig o beryglus"¹ neu'n cael eu gwahardd o dan adran 5 o Ddeddf Arfau Tanio 1968. Mae'r diffiniad o "arbennig o beryglus" yn cynnwys reifflau awyr â gallu ynni trwyn sy'n fwy na 12 pwys troedfedd ac felly mae'n drosedd i feddu ar un heb dystysgrif arf tanio a gyhoeddwyd gan yr heddlu. Mae pistolau awyr sydd â gallu ynni trwyn sy'n fwy na 6 pwys troedfedd yn arfau gwaharddedig, ac mae'n drosedd meddu ar un heb awdurdod yr Ysgrifennydd Gwladol.

Mae arfau awyr yn offer pwysig wrth reoli plâu, yn arbennig mewn sefyllfaoedd lle na fyddai defnyddio bwledi confensiynol yn briodol. Fe'u defnyddir yn helaeth mewn saethu targed cystadleuol ac mae digwyddiadau arfau awyr wedi'u cynnwys yng Ngemau Olympaidd yr Haf a'r Gemau Paralympaidd. Mae llawer o bobl yn defnyddio arfau awyr fel cyflwyniad i saethu ac i ddysgu saethwriaeth sylfaenol a sgiliau trin diogel sy'n berthnasol i arfau tanio eraill.

Rheoleiddio arfau awyr

Er na fydd y rhan fwyaf o arfau awyr yn destun trwyddedu yng Nghymru a Lloegr, serch hynny, mae arfau awyr sydd â gallu ynni trwyn uwchlaw un joule yn cael eu dosbarthu fel arfau tanio a chânt eu rheoleiddio gan Ddeddf Arfau Tanio 1968². Mae hyn yn golygu, er enghraifft, bod y gwaharddiad rhag meddu ar arfau tanio am oes a osodir ar unrhyw un sy'n cael ei anfon i'r carchar am dair blynedd neu fwy yn cynnwys meddu ar arfau awyr. Mae cyfyngiadau hefyd ar feddiant, gan gynnwys gan bobl ifanc. Yn benodol:

- mae'n drosedd i berson sydd ag arf awyr fethu â chymryd rhagofalon rhesymol i atal person anawdurdodedig o dan 18 oed rhag cael mynediad iddo (ac eithrio pan ganiateir hynny); a
- mae'n drosedd i unrhyw un o dan 18 oed fod ag arf awyr neu fwledi ar gyfer arf awyr oni bai ei fod o dan oruchwyliaeth person 21 oed neu drosodd; neu maent yn saethu –
 - fel aelod o glwb saethu targed cymeradwy;
 - mewn oriel saethu lle mai dim ond arfau awyr neu reifflau bach nad ydynt yn fwy na chalibr .23 modfedd sy'n cael eu defnyddio; neu
 - ar safle preifat â chaniatâd y meddiannydd (os ydynt yn 14 oed o leiaf).

¹ Rheolau Arfau Saethu (Arfau Awyr Peryglus) 1969 (SI 1969/47)

²Nid yw gynnuau Airsoft, sy'n gynnuau awyr sydd wedi'u cynllunio i saethu pelenni plastig bach, yn cael eu diffinio fel arfau tanio oni bai eu bod â gallu ynni trwyn sy'n fwy nag 1.3 joule ar gyfer arfau awtomatig (y rhai sy'n saethu fwy nag unwaith heb bwysau dro ar ôl tro ar y glicied) ac sy'n fwy na 2.5 joule ar gyfer gynnuau airsoft eraill.

Camddefnyddio arfau

Troseddu

Yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2019, cofnodwyd 3,028 o droseddau arfau awyr gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr, 50% yn llai na degawd yn flaenorol (2008/09) a gostyngiad o 78% er 2002/03. Yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2019, defnyddiwyd arfau awyr mewn oddeutu 32% o droseddau yn ymwneud ag arfau tanio. Anaml y defnyddir arfau awyr mewn troseddau difrifol - mae bron i ddwy ran o dair (64%) o'r troseddau sy'n ymwneud ag arfau awyr yn ddifrod troseddol.

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019, cofnododd yr heddlu ddau anaf angheuol, 27 anaf difrifol, a 233 o fân anafiadau mewn troseddau yn ymwneud ag arfau awyr. Mae hyn yn debyg i'r flwyddyn flaenorol lle cofnododd yr heddlu un anaf angheuol, 34 anaf difrifol a 309 o anafiadau bach.

Mae nifer yr anafiadau o droseddau yn ymwneud ag arfau awyr wedi gostwng yn sylweddol ers degawd yn ôl (2008/09), pan na chafwyd unrhyw anafiadau angheuol, 72 o anafiadau difrifol a 621 o anafiadau bach.³ Mae pobl iau 10-34 oed yn anghymesur yn fwy tebygol o fod yn ddiodeffwyr troseddau arfau tanio na'r boblogaeth gyffredinol. Mae'r rhai dan 25 oed yn profi 41% o'r holl droseddau arfau awyr a 36% o'r holl droseddau arfau tanio, er eu bod yn 30% o'r boblogaeth (gan gynnwys y 12% o'r boblogaeth sydd o dan 10 oed). Mae pobl ifanc 10-19 oed yn 12% o'r boblogaeth ond maent yn ddiodeffwyr 27% o droseddau arfau awyr.

Lles anifeiliaid

Er nad oes unrhyw ystadegau swyddogol yn ymwneud â'r mater hwn, rydym yn gwybod bod arfau awyr yn cael eu defnyddio mewn ymosodiadau anghyfreithlon ar anifeiliaid. Ers 2012, mae'r RSPCA wedi derbyn dros fil o gŵynion y flwyddyn am anifeiliaid yn cael eu saethu'n anghyfreithlon ag arfau awyr, y mae oddeutu 400 y flwyddyn ohonynt yn ymwneud â chathod domestig. Credir bod y troseddwy yn bobl sy'n anghymesur o ifanc, â chwynion yn cyrraedd uchafbwynt yn ystod gwyliau ysgol.

Digwyddiadau angheuol yn ymwneud ag arfau awyr

Nid oes unrhyw ystadegau swyddogol ar ddigwyddiadau angheuol yn ymwneud ag arfau awyr ar wahân i'r rhai sy'n ymwneud â throseddau arfau awyr a gofnodwyd gan yr heddlu. Fodd bynnag, o ymchwil ffynhonnell agored, credwn y bu o leiaf 25 o farwolaethau oherwydd digwyddiadau saethu ag arfau awyr ym Mhrydain Fawr ers 2005. Mae'r rhain yn cynnwys marwolaethau damweiniol, hunan-niweidio bwriadol a lladdiadau. Mae'n ymddangos bod 12 o'r 25 diodeffwr hyn o dan 18 oed ac mewn naw o'r 12 achos hyn dywedwyd bod y person oedd yn dal yr arf tanio dan 18 oed.

Adolygiad o reoleiddio arfau awyr

Cyhoeddodd y Llywodraeth ym mis Hydref 2017 y byddai'n cynnal adolygiad o reoleiddio arfau awyr yng Nghymru a Lloegr. Roedd hyn yn dilyn argymhelliad gan yr Uwch Grwner ar gyfer Suffolk yn ei adroddiad i farwolaeth Benjamin Wragge, 13 oed, a gafodd ei saethu

³ Swyddfa Ystadegau Gwladol - [Natur troseddau treisgar yng Nghymru a Lloegr: Y flwyddyn hyd fis Mawrth 2019](#)

â reiffl awyr yn ddamweiniol yn 2016. Gofynnodd y crwner i'r Llywodraeth adolygu rheoleiddio arfau awyr fel y gellir cymryd camau i atal trasiedïau tebyg rhag digwydd yn y dyfodol.

Fe wnaeth yr adolygiad ystyried arfau awyr sy'n sefyll yn is na'r diffiniad o "arbennig o beryglus"; hynny yw, roedd yn canolbwyntio ar arfau awyr y gellir eu dal yn gyfreithlon heb dystysgrif arf tanio yng Nghymru a Lloegr. Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae'r cyfrifoldeb am bolisi ar arfau awyr wedi'i ddatganoli ac mae systemau trwyddedu ar waith.

Fe wnaeth y Swyddfa Gartref ysgrifennu at ystod o bartïon â diddordeb ym mis Rhagfyr 2017 i ofyn am farn, gan gynnwys gan yr heddlu, sefydliadau saethu, teuluoedd dioddefwyr a'u ASau, a'r elusennau, Cats Protection [Diogelu Cathod] a'r RSPCA. Gofynnwyd am farn ar faterion allweddol gan gynnwys: mynediad at arfau awyr gan blant a phobl ifanc, storio'n ddiogel a chadw'n ddiogel, safonau gweithgynhyrchu, addasu arfau awyr ar ôl gwerthu i gynyddu lefelau pŵer, ac a fyddai'n werth chweil cyflwyno cyfundrefn drwyddedu ar gyfer arfau awyr yng Nghymru a Lloegr.

Ymatebion gan deuluoedd dioddefwyr a'u Asau

Fe gawsom ymatebion gan deuluoedd, ffrindiau ac ASau dioddefwyr digwyddiadau arfau awyr, a chan y sefydliad ymgyrchu y Rhwydwaith Rheoli Gynnu. Dywedodd bron pob un o'r ymatebwyr hyn y dylai arfau awyr fod yn destun cyfundrefn drwyddedu. Roeddent yn dadlau, er enghraifft, y byddai trwyddedu yn galluogi gwiriadau ar addaswydd perchnogion arfau awyr (gan gynnwys gwiriadau meddygol), yn cynorthwyo i adnabod troseddwy, yn galluogi archwilio trefniadau storio ac, yn ehangach, yn newid y diwylliant fel nad yw arfau awyr bellach yn cael eu hystyried yn "deganau" neu'n "ddynwarediadau".

Dadleuodd yr ymatebwyr hyn yn gyffredinol y dylid cyflwyno mesurau rheoleiddio eraill yn ychwanegol at drwyddedu, megis gofyniad bod y gwn yn cael ei storio mewn cabinet diogel neu ofyniad bod saethwyr ifanc yn cael eu goruchwyllo.

Ymatebion gan yr heddlu a chyrrff gorfodi'r gyfraith

Ni ddadleuodd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) yn gryf dros newidiadau i'r gyfraith. Fodd bynnag, awgrymodd yr NPCC y gallai fod yn briodol codi'r oedran y gall pobl ifanc feddu ar arfau awyr heb oruchwyliaeth ar dir preifat, a bod y gofyniad i gymryd "rhagofalon rhesymol" i atal mynediad i bobl dan 18 oed yn oddrychol ac y gallai eglurder pellach fod yn ddefnyddiol.

Gwahoddodd yr NPCC y Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Balisteg Cenedlaethol (NABIS) i ymateb ar faterion ynghylch safonau gweithgynhyrchu, addasu ôl-werthu ac a ddylid cymryd camau i atal ymyrryd â lefelau pŵer. Dadleuodd NABIS nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach yn y meysydd hyn, gan fod mwyafrif helaeth yr arfau awyr yn gynhenid ddiogel ac ychydig iawn o arfau awyr sy'n dod i sylw cyrrff gorfodi'r gyfraith sy'n uwch na'r trothwy ynni trwyn perthnasol. Fe wnaethom hefyd ofyn i archwilwyr yn Uned Arfau Tanio Fforensig (FFU) Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitan am eu barn. Roedd archwilwyr FFU o'r farn mai ychydig iawn o ddigwyddiadau lle mae arfau awyr sydd wedi'u gor-bweru neu wedi'u gweithgynhyrchu'n wael yn dod i'w sylw, a bod y gyfraith gyfredol yn galluogi erlyn lle mae arfau awyr â gallu ynni trwyn uwchlaw'r trothwy hwn ond eu bod yn cael eu dal heb dystysgrif.

Dadleuodd Heddlu Trafnidiaeth Prydain y dylai arfau awyr fod yn destun cyfundrefn drwyddedu. Roeddent yn dadlau y dylent fod yn ddarostyngedig i'r un gofynion storio a

Firearms safety consultation

“rheswm da” ag arfau tanio eraill a gedwir ar dystysgrif ac y dylid cael trywydd archwilio ar gyfer arfau unigol.

Awgrymodd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ar gyfer Swydd Northampton, Dorset a Suffolk i gyd y dylid cael math o drwyddedu neu gofrestru symlach, nad yw o reidrwydd yn cael ei weinyddu gan yr heddlu.

Ymateb gan elusennau lles anifeiliaid ac ymgyrchoedd cyhoeddus

Ymatebodd elusennau lles anifeiliaid gan gynnwys Cats Protection [Diogelu Cathod], yr RSPCA, SPCA yr Alban, SPCA Iwerddon, Blue Cross a Chartref Cathod a Chŵn Battersea i'r adolygiad. Adroddodd pob un ohonynt nifer uchel o ymosodiadau ag arf awyr ar anifeiliaid anwes, yn arbennig cathod ac anifeiliaid eraill. Mae'r holl sefydliadau hyn yn cefnogi cyflwyno trwyddedu, â gofyniad cysylltiedig bod gan ddeiliad y drwydded reswm dilys dros feddiant. Roeddent yn dadlau y byddai trwyddedu yn cyfyngu perchnogaeth i'r rheini sydd â rheswm dilys i feddu ar arf awyr ac yn galluogi'r heddlu i adnabod troseddwyr.

Derbyniodd y Llywodraeth bron i 52,000 o negeseuon e-bost gan aelodau'r cyhoedd a nododd ganfyddiadau Cats Protection, yn ôl ei dadansoddiad o adroddiadau yn y wasg, bod pobl ag arfau awyr yn ymosod ar o leiaf tair cath bob wythnos. Roedd yr ymatebwyr hyn o blaid cyflwyno trwyddedu i reoli pwy all feddu ar arfau awyr a galluogi'r heddlu i adnabod pobl sydd dan amheuaeth. Manylodd llawer o'r ymatebwyr hyn ar anafiadau i'w hanifeiliaid anwes eu hunain a achoswyd gan arfau awyr. Llofnododd dros 200,000 o bobl ddeiseb yn gofyn am gynllun trwyddedu yn dilyn saethu teulu o elyrch ym mis Rhagfyr 2018 ac anfonodd mwy na 700 o bobl e-byst i'r Swyddfa Gartref am y digwyddiad.

Ymatebion gan saethwyr

Ymatebodd nifer o sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau saethwyr a'r diwydiant arfau tanio i'r adolygiad. Roedd y rhain yn cynnwys Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain, y Gun Trade Association, y National Small-Bore Rifle Association, Cyngor Chwaraeon Saethu Prydain, y Gynghrair Cefn Gwlad, y National Rifle Association, a'r Airgun Manufacturing and Trade Association. Roedd yr holl sefydliadau hyn yn gwrthwynebu cyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer arfau awyr, neu unrhyw gynnydd mewn rheoleiddio.

Dadleuodd y sefydliadau hyn fod y rheoliadau cyfredol yn ddigonol a bod angen eu gorfodi'n briodol. Roedd rhai ohonynt yn cynnig gwell addysg i berchnogion am y gyfraith a diogelwch arfau tanio, er bod eraill yn awgrymu mai'r rhai sydd fwyaf angen addysg fyddai leiaf tebygol o ymgysylltu.

Ysgrifennodd dros 1,600 o bobl, llawer ohonynt yn nodi eu hunain fel saethwyr neu berchnogion arfau awyr, i wrthwynebu cyflwyno cyfundrefn drwyddedu. Roedd yr ymatebwyr hyn fel rheol yn gwrthwynebu unrhyw fath o dynhau'r rheoliadau sy'n llywodraethu arfau awyr. Dadleuodd llawer ohonynt fod angen gorfodi'r ddeddfwriaeth bresennol yn well, a dadleuodd rhai dros gosbau uwch am droseddau. Cynigiodd oddeutu 100 o'r ymatebwyr hyn ryw fath o reoleiddio cynyddol, megis diogelwch tynnach i'w gwneud yn anoddach i blant gael mynediad at arfau awyr.

Canlyniadau'r adolygiad

Ar ôl pwysu a mesur y dystiolaeth a gyflwynwyd, rydym o'r farn na fyddai gweithredu i

orfodi safonau gweithgynhyrchu, gan gynnwys camau pellach i atal addasu ôl-werthu, yn gymesur. Fodd bynnag, byddwn yn cadw'r mater hwn o dan adolygiad.

Rydym wedi penderfynu peidio â chyflwyno cyfundrefn drwyddedu ar gyfer arfau awyr yng Nghymru a Lloegr yn unol â'r drefn drwyddedu ar gyfer arfau tanio a gynnu haels. Rydym o'r farn bod y mesurau a nodir isod yn cynrychioli camau wedi'u targedu a fydd yn mynd i'r afael â'r risgiau allweddol heb gyflwyno gweinyddiaeth a chost ychwanegol i heddluoedd neu ddefnyddwyr arfau awyr.

Cynigion yn dilyn yr adolygiad

O ystyried ei bod yn ymddangos bod camddefnyddio arfau awyr yn digwydd yn anghymesur pan yw pobl ifanc yn meddu arnynt, rydym yn bwriadu targedu'r risg allweddol o feddiant di-oruchwyliaeth ymhlith pobl o dan 18 oed ar arfau awyr.

Rydym yn cynnig dileu'r eithriad sy'n caniatáu i bobl ifanc sydd o leiaf 14 oed feddu ar arfau awyr heb oruchwyliaeth mewn safleoedd preifat.

Rydym yn cynnig cryfhau ac egluro'r drosedd o fethu â chymryd 'rhagofalon rhesymol' fel bod rhaid i 'ragofalon rhesymol' gynnwys cloi'r arf awyr o'r golwg pan nad yw'n cael ei ddefnyddio a storio'r bwledi ar wahân, pryd bynnag y mae plant dan 18 oed ar y safle. Nid ydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i arfau awyr gael eu storio mewn cabinet gynnu.

Yn ogystal, rydym yn cynnig gweithio gyda diwydiant i wella cadw a thrin arfau awyr yn ddiogel, er mwyn sicrhau bod dyfeisiau diogelwch cartref, megis securicords, yn cael eu cyflenwi â'r holl arfau awyr newydd, er mwyn helpu i leihau'r risg o gamddefnyddio; a sicrhau bod delwyr yn egluro pwysigrwydd trin a storio'n ddiogel i brynwyr arfau awyr newydd yn bersonol, yn y man gwerthu, yn arbennig mewn perthynas â mynediad i'r rhai dan 18 oed.

Cwestiynau

C6. I ba raddau ydych yn cytuno y dylai'r Llywodraeth ddileu'r eithriad sy'n caniatáu meddiant heb oruchwyliaeth o arfau awyr gan bobl dan-18 oed ar dir preifat?

C7. I ba raddau ydych yn cytuno y dylai'r Llywodraeth egluro'r drosedd o fethu â chymryd 'rhagofalon rhesymol' i atal plant dan oed rhag cael arfau awyr fel bod rhaid i 'ragofalon rhesymol' gynnwys cloi'r arf awyr o'r golwg a storio'r bwledi ar wahân pryd bynnag y mae pobl ifanc o dan 18 oed ar y safle pan nad yw'r arf awyr yn cael ei ddefnyddio?

C8. I ba raddau ydych yn cytuno y dylai'r Llywodraeth weithio gyda diwydiant i wella cadw a thrin arfau awyr yn ddiogel, er mwyn sicrhau bod dyfeisiau diogelwch cartref yn cael eu cyflenwi â'r holl arfau awyr newydd; ac y dylai delwyr egluro

pwysigrwydd trin a storio'n ddiogel i brynwyr arfau awyr newydd yn y man gwerthu?

C9. Unrhyw sylwadau eraill ar y cynigion hyn i gryfhau rheoleiddio arfau awyr, gan gynnwys unrhyw sylwadau ar y costau a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn yr asesiad effaith ac unrhyw gostau nad ydynt wedi'u cynnwys? (uchafswm o 250 gair)

Meysydd reifflau bach

Y ddeddfwriaeth

Mae adran 11(4) Deddf Arfau Tanio 1968 yn nodi fel a ganlyn:

"Gall person sy'n cynnal neu'n cario ar faes reifflau bach (p'un ai ar gyfer clwb reifflau neu fel arall) neu oriel saethu lle na ddefnyddir arfau tanio heblaw arfau awyr neu reifflau bach nad ydynt yn fwy na chalibr .23 modfedd, heb ddal tystysgrif, gael yn ei feddiant, neu brynu neu gaffael, reifflau bach a bwledi sy'n addas ar eu cyfer; a gall unrhyw berson, heb ddal tystysgrif, ddefnyddio unrhyw reiffl a bwledi o'r fath mewn maes neu oriel o'r fath."

Sut y defnyddir y ddeddfwriaeth ar gyfer meysydd reifflau bach

Mae adran 11(4) yn caniatáu i berson redeg maes reifflau neu oriel saethu lle mai dim ond reifflau bach nad ydynt yn fwy na chalibr.23 modfedd neu neu arfau awyr yn cael eu defnyddio, heb yr angen am drwydded arfau tanio. Yn ychwanegol, nid oes angen trwydded arfau tanio ar aelodau'r cyhoedd i saethu mewn maes neu oriel o'r fath. Mae'r ddeddfwriaeth wedi bodoli ers blynnyddoedd lawer ac fe'i defnyddir yn helaeth, yn arbennig fel ffordd o gyflwyno'r rhai sy'n newydd i'r gamp gan ei bod yn galluogi person i roi cynnig ar saethu heb orfod gwneud cais am dystysgrif arf tanio neu fod yn aelod o glwb saethu targed cymeradwy. Mae llawer o glybiau saethu targed cymeradwy yn dibynnu ar y ddeddfwriaeth hefyd oherwydd y cyfyngiadau sydd ar waith o ran defnyddio 'diwrnodau gwastai', sydd wedi'u cyfyngu i 12 y flwyddyn.

Deallir yn gyffredinol y bwriedir i'r ddarpariaeth ar gyfer meysydd reifflau bach fod yn berthnasol i gynnau tanio-ymyl .22 pŵer is. Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth yn cyfeirio at 'reifflau bach nad ydynt yn fwy na chalibr .23 modfedd', a all felly gynnwys arfau mwy pwerus.

Mae rhai enghreifftiau o sut y defnyddir y ddarpariaeth adran 11(4) isod:

- Mae oddeutu 200 o glybiau reiffl calibr bach a rhai clybiau saethu a gymeradwyir gan y Swyddfa Gartref yn dibynnu ar adran 11(4) a all helpu i ddod ag aelodau newydd i'r gamp. Er enghraifft, mae'r safleoedd hyn yn cael eu defnyddio gan sefydliadau fel Cymdeithas y Sgowtiaid a rhai ysgolion.

- Mae hefyd nifer fach o:

- ganolfannau chwaraeon yn cynnal hyfforddiant/cystadlaethau biathlon;
- meysydd dros dro mewn sioeau, er enghraifft, ffeiriau helwriaeth;
- siopau gynnu ac arfogwyr â meysydd;
- sefydliadau hyfforddi ar gyfer saethu;
- tafarndai â meysydd targed cloch neu dwannel, ac
- orielau saethu mewn ffeiriau (er bod bron pob un bellach yn defnyddio arfau awyr).

Pam y cynigir newid deddfwriaethol

Yn ystod hynt Deddf Arfau Ymosodol 2019, cyflwynwyd gwelliannau i ddileu eithriad adran 11(4) oherwydd pryderon a godwyd gan y sector gorfodi'r gyfraith. Addawodd y Llywodraeth ystyried eithriad adran 11(4) fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Mae'r Llywodraeth wedi ceisio barn ragarweiniol gan y sector gorfodi'r gyfraith, gan gynnwys Cyngor Penaethiaid yr Heddlu Cenedlaethol, yr Asiantaeth Troseddau Genedlaethol a'r Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Balisteg Cenedlaethol. Mae'r pryderon a godwyd gan swyddogion gorfodi'r gyfraith yn canolbwyntio ar y risg i ddiogelwch y cyhoedd oherwydd bod y ddeddfwriaeth yn caniatáu i berson brynu a meddu ar arfau tanio heb fynd trwy unrhyw fath o wiriad gan yr heddlu:

- nid oes angen gwiriad addasrwydd gan yr heddlu ar gyfer gweithredwr y maes reifflau bach neu aelodau'r cyhoedd sy'n saethu ar y maes;
- gall gweithredwr y maes reifflau bach brynu reifflau bach a bwledi gan ddeliwr arfau tanion cofrestredig heb ei fod yn ofynnol yn gyfreithiol iddo ddangos tystiolaeth o pam mae'r gynnu a'r bwledi yn cael eu prynu;
- nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i weithredwr y maes storio'r gynnu yn ddiogel na hysbysu'r heddlu o fodolaeth yr arfau tanio, eu nifer na'u lleoliad.

Mae'r heddlu'n credu bod hyn yn cyflwyno bwlch yn y ddeddfwriaeth y gallai troseddwr neu derfysgwyr ei defnyddio i gael gynnu, gan gynnwys arfau tanio sy'n hunan-lwytho y gellir eu tanio'n gyflym ac a allai arwain at nifer fawr o anafusion. Barn y sector gorfodi'r gyfraith yw bod y rhan hon o ddeddfwriaeth arfau tanio yn wahanol i'n rheolaethau arfau tanio sydd fel arall yn gadarn. At hynny, er bod y ddeddfwriaeth sy'n gwahardd y rheini ag

euogfarnau rhag bod ag arfau tanio yn eu meddiant⁴



⁴ Adran 21 Deddf Arfau Tanio 1968. I grynhoi, gwaherddir personau a ddeddfrydwyd i dymor o garchar rhwng tri mis a thair blynedd (gan gynnwys deddfrydau gohiriedig) rhag meddu ar arfau tanio neu fwledi am bum mlynedd. Gwaherddir pobl sydd wedi cael eu deddfrydu i dair blynedd neu fwy am oes.

yn berthnasol i weithredwyr a defnyddwyr ystodau reifflau bach, nid oes unrhyw ofyniad i wirio eu statws.

Mewn cyferbyniad ag absenoldeb goruchwyliaeth sy'n berthnasol o dan adran 11(4), mae system trwyddedu arfau tanio'r heddlu yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau o'r cyhoedd sydd fel arall yn dymuno meddu ar gynnu tanio-ymyl .22 fod yn destun gwiriadau addasrwydd llym, gan gynnwys cofnod troseddol, gwrthderfysgaeth a gwiriadau meddygol. Rhaid i'r arfau tanio gael eu storio'n ddiogel a bod yn hygyrch i ddeiliad y dystysgrif yn unig, ac mae'r heddlu'n ymweld â'r ymgeisydd ac archwilio'r cyfleusterau storio cyn trwyddedu yn y lle cyntaf.

Cynigion ar gyfer newid

Mae'r Llywodraeth yn cynnig diwygio'r eithriad adran 11(4) i ddod â gwell rheolaethau i mewn i fynd i'r afael â'r materion a godwyd ynghylch y risg i ddiogelwch y cyhoedd. Wrth wneud hynny, bydd y ddarpariaeth ar gyfer meysydd reifflau bach yn parhau.

Y bwriad yw cadw'r buddion y mae'r esemptiad adran 11(4) yn eu darparu, wrth wella'r rheolaethau fel bod angen gwiriadau a chymeradwyaeth yr heddlu ar gyfer person sy'n gweithredu maes reifflau bach. Rydym hefyd yn bwriadu egluro yn y ddeddfwriaeth bod 'reiffel fach' yn golygu gwn tanio-ymyl .22 fel bod arfau tanio mwy pwerus a pheryglus yn cael eu gwahardd yn benodol.

Mae cynigion y Llywodraeth fel a ganlyn:

- Rhaid i berson sy'n dymuno gweithredu maes reifflau bach wneud cais am dystysgrif arf tanio a nodi'r reifflau y maent am eu caffael. Rhaid iddynt gael y gwiriadau addasrwydd angenrheidiol, gan gynnwys cofnodion troseddol, gwrthderfysgaeth a gwiriadau meddygol.

- Bydd yr heddlu'n ymweld â'r gweithredwr maes reifflau bach a byddant yn gwirio bod y trefniadau diogelwch ar gyfer yr arfau tanio yn ddigonol. Bydd tystysgrif arf tanio a roddir i weithredwr maes reifflau bach yn nodi gofynion diogelwch sy'n ymwneud â'r arfau tanio i sicrhau eu bod yn cael eu storio'n ddiogel.

- Bydd gweithredu maes reifflau bach ymhlith y 'rhesymau da' y gall yr heddlu eu hystyried wrth asesu cais am dystysgrif arf tanio.

- Ni fydd unigolion anaddas sy'n bwriadu gweithredu maes reifflau bach, fel y rhai y gwrthodwyd tystysgrif arf tanio neu wn haels iddynt neu y mae eu tystysgrif wedi'i dirymu ar sail addasrwydd, yn gallu defnyddio'r esemptiad i osgoi craffu priodol.

- Bydd deddfwriaeth arfau tanio yn nodi mai dim ond gynnu tanio-ymyl .22 y gellir eu hystyried yn reifflau bach.

Cwestiynau

C10. I ba raddau ydych yn cytuno y dylid ei gwneud yn ofynnol i berson gael tystysgrif arf tanio er mwyn gweithredu maes reifflau bach?

C11. I ba raddau ydych yn cytuno mai dim ond reifflau nad ydynt yn fwy na thanio-ymyl .22 y dylid eu hystyried yn reifflau bach at ddibenion y ddarpariaeth?

C12. I ba raddau ydych yn cytuno na ddylid ystyried reifflau tanio-ymyl sy'n hunan-lwytho .22 yn reifflau bach at ddibenion y ddarpariaeth?

C13. Unrhyw sylwadau eraill ar y cynigion hyn ar gyfer cryfhau rheolaethau ar feysydd reifflau bach, gan gynnwys unrhyw sylwadau ar y costau a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn yr asesiad effaith ac unrhyw gostau nad ydynt wedi'u cynnwys? (uchafswm o 250 gair)

Bwledi

Mae'r adran hon yn gwahodd barn ynghylch a yw'r rheolaethau ar gydrannau bwledi'n parhau i fod yn ddigonol neu a ddylid gwneud meddu ar gydrannau bwledi â'r bwriad o weithgynhyrchu meintiau anawdurdodedig o rowndiau bwledi cyflawn yn drosedd.

Y mater

Mae'r sector gorfodi'r gyfraith wedi codi pryderon bod cydrannau bwledi yn rhy hawdd eu cael ac yn cael eu defnyddio gan droseddwyr i gynhyrchu rowndiau bwledi cyflawn yn anghyfreithlon.

Y ddeddfwriaeth

Cydrannau allweddol bwledi yw'r gyrrwr a'r preimiwr. Mae'r gyrrwr yn helpu i yrru teflyn o arf tanio trwy losgi'n gyflym, tra bod preimiwr yn cynnwys cyfansoddyn cemegol ffrwydrol sy'n cynnau'r gyrrwr. Y cydrannau sy'n weddill yw'r cas cetris a'r teflyn.

Mae meddu ar yrrwr yn cael ei reoli o dan Reoliadau Ffrwydron 2014, sy'n ei gwneud yn ofynnol, â rhai eithriadau, bod rhaid i unrhyw un sydd am gaffael neu gadw ffrwydron feddu ar dystysgrif ffrwydron a gyhoeddwyd gan yr heddlu.

Mae preimwyr yn ddarostyngedig i reolaeth o dan adran 35 Deddf Lleihau Troseddau Treisgar 2006 sy'n ei gwneud yn drosedd i werthu neu brynu preimwyr, gan gynnwys cesys cetris gwag sy'n ymgorffori preimwyr, oni bai fod y prynwr wedi'i awdurdodi i feddu arnynt - er enghraifft, trwy fod yn ddeliwr arfau tanio cofrestredig neu drwy ddal tystysgrif arf tanio sy'n eu hawdurdodi i feddu ar arf tanio neu fwledi o'r math perthnasol. Y gosb uchaf am drosedd yw 6 mis o garchar.

Firearms safety consultation

Mae'n drosedd o dan adran 1 Deddf Arfau Tanio 1968 i feddu, prynu neu gaffael bwledi y mae'r adran yn gymwys iddynt heb ddal tystysgrif arf tanio. Y gosb uchaf yw 7 mlynedd o garchar (pan gyflawnir y drosedd ar ffurf waethygedig), neu 10 mlynedd yn achos bwledi gwaharddedig. Mae'n drosedd o dan adran 5 (2A) Deddf Arfau Tanio 1968 i weithgynhyrchu a chyflenwi bwledi gwaharddedig yn anghyfreithlon, â'r gosb uchaf o garchar am oes.

Cwestiynau

C14. I ba raddau ydych yn ystyried y dylai fod yn drosedd i feddu ar gydrannau bwledi â'r bwriad o gynhyrchu meintiau anawdurdodedig o rowndiau bwledi cyflawn?

C15. Unrhyw sylwadau eraill ar reoli cydrannau bwledi, gan gynnwys unrhyw sylwadau ar y costau a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn yr asesiad effaith ac unrhyw gostau nad ydynt wedi'u cynnwys? (uchafswm o 250 gair)

Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau dilynol a nodir yn y papur ymgynghori hwn.

Reifflau ynni trwyn uchel

C1. I ba raddau ydych yn ystyried y byddai'r gofynion diogelwch lefel 3 presennol, os ydynt wedi'u nodi mewn rheolau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn ddigonol i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â reifflau ynni trwyn uchel?

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

C2. Os nad ydych o'r farn y byddai diogelwch lefel 3 yn mynd i'r afael â'r risgiau yn ddigonol, i ba raddau ydych yn ystyried y gallai'r amodau diogelwch ychwanegol dilynol fod yn berthnasol i storio a defnyddio'r reifflau hyn yn ddiogel?

A. Gosod caeadau a rhwyllau ar bob drws a ffenestr?

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

B. Gosod CCTV?

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

C. Larymau panig ar gael lle mae'r reiffl yn cael ei storio?

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

D. Larymau panig ar gael pan yw'r reiffl yn cael ei defnyddio arfaes?

Firearms safety consultation

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

E. Dylid cadw'r follt neu gydrannau hanfodol eraill ar wahân.

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

F. Os yw'n hyfyw, ac â newid yn amodau'r gyfraith neu dystysgrif, aelodau eraill o glwb saethu'r deiliad i ofalu am gydrannau hanfodol ar ran ei gilydd?

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

G. Cadw bwledi ar wahân i'r gwn mewn cabinet ar wahân a dim ond nifer fach o rowndiau bwledi a ganiateir?

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

C3. I ba raddau y byddai'n well/hyfyw ei gwneud yn ofynnol i'r reifflau hyn gael eu storio mewn clwb gynnu yn unig?

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

C4. I ba raddau y byddai'n well/hyfyw ei gwneud yn ofynnol i'r reifflau hyn gael eu storio gan ddeliwr arfau tanio cofrestredig yn unig?

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

C5. Unrhyw sylwadau eraill ar y cynigion hyn ar gyfer mesurau diogelwch ychwanegol ar gyfer reifflau ynni trwyn uchel, gan gynnwys unrhyw sylwadau ar y costau a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn yr asesiad effaith ac unrhyw gostau nad ydynt wedi'u cynnwys? (uchafswm o 250 gair)

--

Arfau awyr

C6. I ba raddau ydych yn cytuno y dylai'r Llywodraeth ddileu'r eithriad sy'n caniatáu meddiant ar arfau awyr heb oruchwyliaeth gan bobl o dan 18 oed ar dir preifat?

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

C7. I ba raddau ydych yn cytuno y dylai'r Llywodraeth egluro'r drosedd o fethu â chymryd 'rhagofalon rhesymol' i atal plant dan oed rhag cael arfau awyr fel bod rhaid i 'ragofalon rhesymol' gynnwys cloi'r arf awyr o'r golwg pan nad yw'n cael ei ddefnyddio a storio'r bwledi ar wahân pryd bynnag y mae plant dan 18 oed ar y safle?

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

C8. I ba raddau ydych yn cytuno y dylai'r Llywodraeth weithio gyda diwydiant i wella cadw a thrin arfau awyr yn ddiogel, er mwyn sicrhau bod dyfeisiau diogelwch cartref yn cael eu cyflenwi â'r holl arfau awyr newydd; ac y dylai delwyr egluro pwysigrwydd trin a storio'n ddiogel i brynwyr arfau awyr newydd yn y man gwerthu?

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

C9. Unrhyw sylwadau eraill ar y cynigion hyn i gryfhau rheoleiddio arfau awyr, gan gynnwys unrhyw sylwadau ar y costau a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn yr asesiad effaith ac unrhyw gostau nad ydynt wedi'u cynnwys? (uchafswm o 250 gair)

Meysydd reifflau bach

C10. I ba raddau ydych yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i berson gael tystysgrif arf tanio er mwyn gweithredu maes reifflau bach?

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

C11. I ba raddau ydych yn cytuno mai dim ond reifflau nad ydynt yn fwy na thanio-ymyl .22 y dylid eu hystyried yn reifflau bach at ddibenion y ddarpariaeth?

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

C12. I ba raddau ydych yn cytuno na ddylid ystyried reifflau tanio-ymyl hunan-lwytho .22 yn reifflau bach at ddibenion y ddarpariaeth?

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

C13. Unrhyw sylwadau eraill ar y cynigion hyn ar gyfer cryfhau rheolaethau ar feysydd reifflau bach, gan gynnwys unrhyw sylwadau ar y costau a'r

rhagdybiaethau a ddefnyddir yn yr asesiad effaith ac unrhyw gostau nad ydynt wedi'u cynnwys? (uchafswm o 250 gair)

Bwledi

C14. I ba raddau ydych yn ystyried y dylai meddu ar gydrannau bwledi â'r bwriad o gynhyrchu meintiau anawdurdodedig o rowndiau bwledi cyflawn fod yn drosedd?

Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

C15. Unrhyw sylwadau eraill ar reoli cydrannau bwledi, gan gynnwys unrhyw sylwadau ar y costau a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn yr asesiad effaith ac unrhyw gostau nad ydynt wedi'u cynnwys? (uchafswm o 250 gair)

Diolch am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.

Ynglŷn â chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch chi'ch hun

Enw llawn	
Teitl swydd neu'r dwyddogaeth rydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn ynddo (er enghraifft, aelod o'r cyhoedd)	
Dyddiad	
Enw'r cwmni/sefydliad (os yw'n berthnasol)	
Cyfeiriad	
Cod Post	
Os hoffech i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r hyn uchod	

Os ydych chi'n gynrychiolydd grŵp, rhowch enw'r grŵp i ni a rhowch grynodedeb o'r bobl neu'r sefydliadau rydych yn eu cynrychioli.

**A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn
mewn perthynas ag effaith ar nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf
Cydraddoldeb 2010: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a
mamolaeth; priodas a phartneriaeth sifil; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd
rhywiol?**

Oes	Nac oes

Rhowch fanylion. (uchafswm o 500 gair)

Manylion cyswllt a sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 16 Chwefror 2021 naill ai trwy –

- Gwblhau'r ffurflen ar-lein yn: <https://www.gov.uk/government/consultations/firearms-safety>

NEU

- E-bostio i: firearmsconsultations@homeoffice.gov.uk

Peidiwch ag anfon ymatebion trwy'r post i'r adran ar hyn o bryd oherwydd efallai na fyddwn yn gallu eu cyrchu.

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gŵynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori dylech gysylltu â'r Swyddfa Gartref yn y cyfeiriad uchod.

Copïau ychwanegol

Gellir cael copïau papur pellach o'r ymgynghoriad hwn o'r cyfeiriad hwn ac maent hefyd ar gael ar-lein yn [cyfeiriad gwe]

Gellir gofyn am fersiynau fformat amgen o'r cyhoeddiad hwn gan firearmsconsultations@homeoffice.gov.uk.

Cyhoeddi ymatebion

Cyhoeddir papur sy'n crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ymhen xx mis [cyn belled ag y bo modd dylai fod o fewn tri mis i ddyddiad cau'r ymgynghoriad]. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn gov.uk.

Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli pan ydynt yn ymateb.

Sut y bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu trin

Bydd yr Adran yn prosesu'ch data yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 ac yn y mwyafrif o amgylchiadau bydd hyn yn golygu na fydd eich data yn cael eu datgelu i drydydd partïon.

Gellir trosglwyddo'r wybodaeth a anfonwch atom i gydweithwyr yn y Swyddfa Gartref, adrannau eraill y Llywodraeth ac asiantaethau cysylltiedig i'w defnyddio mewn cysylltiad â'r ymgynghoriad hwn. Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn,

fod yn destun cyhoeddi neu ddatgelu yn unol â mynediad cymwys i fframweithiau gwybodaeth, yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (DRhG) a deddfwriaeth diogelu data.

Os ydych chi am i wybodaeth benodol rydych yn ei darparu gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, bod Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n delio, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau hyder .

O ystyried hyn, dylech egluro i ni pam eich bod yn ystyried bod unrhyw wybodaeth rydych wedi'i darparu yn gyfrinachol. Os derbyniwn gais am ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn briodol, ond ni allwn roi sicrwydd y bydd cyfrinachedd yn cael ei gynnal yn yr holl amgylchiadau. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG ynddo'i hun yn cael ei ystyried yn rhwymol ar yr Adran.

Asesiadau effaith

Gellir cyrchu Asesiadau Effaith ar gyfer y cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn yn <https://www.gov.uk/government/consultations/firearms-safety>. Fe'ch gwahoddir i gyflwyno unrhyw sylwadau a allai fod gennych ar yr asesiadau effaith fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Egwyddorion yr ymgynghoriad

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r llywodraeth a chyirff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u nodi yn egwyddorion yr ymgynghoriad.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>



© Hawlfraint y goron [nodwch y flwyddyn]

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.gov.uk/government/publications neu gyfeiriad gwe/mewnrwyd arall].

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn public.enquiries@homeoffice.gov.uk.